# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

## Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

### DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

### WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

### A GYFLWYNWYD / TABLED ON

### 14/12/00 - 22/1/01

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2001-0001 Trydydd Campws Meddygol i Gymru/ A Third Medical Campus for Wales

23 Jan 2001 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther, Janet Ryder

No Subscribers

*Mae'r Cynulliad hwn o'r farn y dylai trydydd campws ar gyfer Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru gael ei sefydlu a'i leoli ym Mangor.*

*Byddai hyn yn fodd i:*
*- gynorthwyo â'r strategaeth recriwtio sy'n angenrheidiol yn y tymor hir ar gyfer yr NHS yng Nghymru, ac yn fodd i ategu'r strategaeth honno*
*- gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael o ran cynnig addysg feddygol trwy gyfrwng y Gymraeg*
*- rhoi cyfle i arbenigo mewn meysydd sydd o ddiddordeb i Gymru*
*- adeiladu ar y lefel brofedig o ymchwil uchel ei ansawdd*

*Mae'n nodi bod cefnogaeth eang i'r uchelgais hwn ymhlith Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru, Ymddiriedolaethau NHS, Prifysgol Cymru, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, a phobl y Gogledd.*

*This Assembly believes that a third campus of the University of Wales College of Medicine*

*should be developed and located at Bangor.*

*This would:*
*- assist and compliment the necessary long-term recruitment strategy for the NHS in Wales*
*- enhance Welsh medium provision of medical education*
*- provide the opportunity for specialisation in Welsh areas of interests*
*- build on the established level of high quality research*

*and notes the existence of widespread support for this ambition among the North Wales Health Authority, NHS Trusts, University of Wales, University of Wales College of Medicine and the people of North Wales.*

## OPIN-2000-0112 Biwro Cofnodion Troseddol/Criminal Records Bureau

14 Dec 2000 Raised by Brian Hancock, Owen John Thomas MA

12 Subscribers:

Dafydd Wigley
Helen Mary Jones
Ron Davies
Cynog Dafis
Rhodri Glyn Thomas
Peter Black
David Melding
John Griffiths LLB
Mick Bates
David Davies
Gareth Jones
Janet Ryder

*Mae gwir angen am gynnal profion diogelwch llym ar weithwyr a gwirfoddolwyr sy’n gweithio gyda phlant ac oedolion sy’n agored i niwed. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu’r Biwro Cofnodion Troseddol, a ddaw i rym ym mis Gorffennaf 2001 ac mae’n awyddus i weld y Llywodraeth yn San Steffan yn diddymu’r ffioedd archwilio ar gyfer gwirfoddolwyr, yn unol â’r pwerau sydd ganddynt o dan Ddeddf yr Heddlu 1997.*

*There is a clear need for stringent security checks on employees and volunteers working with children and vulnerable adults. The National Assembly for Wales welcomes the introduction of the Criminal Record Bureau, which comes into effect in July 2001 and requests that the Government at Westminster waive the vetting fees for volunteers as they are empowered to do*

*so under the 1997 Police Act.*

## OPIN-2000-0111 Adfer budd-daliadau gan lowyr a dderbyniodd iawndal/Reclaiming benefit from miners who have received compensation

11 Dec 2000 Raised by Geraint Davies

13 Subscribers:

Janet Ryder
Peter Black
Owen John Thomas MA
Dafydd Wigley
Brian Hancock
Rhodri Glyn Thomas
Janet Davies
Cynog Dafis
Helen Mary Jones
Jocelyn Davies
Mick Bates
Gareth Jones
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

*Mae Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n galw ar lywodraeth San Steffan i roi'r gorau i adfer budd-daliadau gan lowyr a dderbyniodd iawndal am afiechydon y frest yn deillio o'u gwaith.*

*The Members of the National Assembly for Wales call on the Westminster government to cease the practice of reclaiming benefit from miners who have received compensation for chest conditions resulting from their employment.*

## OPIN-2000-0110 Gofal Hir Dymor i'r Henoed/Long Term Care of the Elderly

11 Dec 2000 Raised by Peter Black, Kirsty Williams

2 Subscribers:

Janet Ryder

Brian Hancock

*Mae’r Cynulliad hwn yn galw ar Lywodraeth San Steffan i roi argymhellion y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Hir Dymor ar waith. Dylai’r wladwriaeth dalu am ofal nyrsio a gofal personol o arian trethi cyffredinol.*

*Ni ddylid gorfodi’r henoed yng Nghymru i werthu eu cartrefi i dalu am eu gofal.*

*Mae’r Cynulliad hwn yn credu nad yw’n foesol gyfiawn bod yn rhaid i’r henoed sy’n dioddef o Dementia a chlefyd Alzheimer yng Nghymru dalu am ofal personol megis cymorth i ymolchi a bwyta y mae cleifion mewn ysbytai’n ei dderbyn am ddim.*

*This Assembly urges the Westminster Government to implement the recommendations of the Royal Commission on Long Term Care. Both nursing care and personal care should be paid for by the state out of general taxation.*

*Elderly people in care in Wales should not be forced to sell their homes to pay for care.*

*This Assembly believes it is a moral injustice that elderly people suffering from Dementia and Alzheimer's in Wales have to pay for personal care such as help with washing and eating which hospital patients receive for free.*

## Amendments

**A01** 13 Dec 2000 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

5 Subscribers

Owen John Thomas MA
Janet Ryder
Rhodri Glyn Thomas
Dafydd Wigley
Gareth Jones

*Mae'r Cynulliad hwn felly yn galw ar Lywodraeth Partneriaeth Cymru i wneud y cyfryw sylwadau i Lywodraeth San Steffan yn ddiymdroi.*

*This Assembly therefore calls on the Partnership Government of Wales to make such representations immediately to the Westminster Government.*

## OPIN-2000-0109 Rheolaeth dros wargedion mewn cronfeydd pensiwn/Control of pension fund trusts surpluses

08 Dec 2000 Raised by Jocelyn Davies, John Griffiths LLB, Helen Mary Jones, Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

4 Subscribers:

Janet Ryder
Owen John Thomas MA
Brian Hancock
Kirsty Williams

*Cred y Cynulliad hwn fod y gyfraith bresennol, sy'n caniatau i gyflogwyr penderfynu tynged geargedion cronfeydd pensiwn, yn annerbyniol gan bensiynwyr galwedigaethol ac yn peryglu gweinyddiaeth ddiduedd y cronfeydd hynny. Noda'r Cynulliad a phryder arbennig mai 14% yn unig o'r gwarged gwerth mwy na £1000myng nghronfa pensiwn Dur Prydain a ddyfarnwyd i bensiynwyr adeg yr adolygaid actiwaraidd diwethaf, a hynny dan gyfyngiadau afresymol. Geilw'r Cynulliad ar i'r Llywodraeth greu deddfwriaeth i roi'r hawl i aelodau a phensiynwyr, yn ogystal a chyflogwyr, i benderfynu pa fodd y diddolir arian gweddill, er lles pawb.*

*This Assembly believes that the law allowing employers to determine what is done with surpluses in pension fund trusts is unacceptable to occupational pensioners and compromises the impartiality of fund administration. The Assembly notes with particular concern that, at the last actuarial review, pensioners were given just 14% of a surplus in excess of £1000m in the British Steel pension fund and unreasonable restrictions imposed. The Assembly calls on the Government to legislate to give members and pensioners as well as employers the right to decide on the distribution of surpluses, in the interests of all.*

## OPIN-2000-0108 Enwebiad Cymreig am statws Dinas/Welsh nomination for city status

06 Dec 2000 Raised by Nicholas Bourne LLB LLM

3 Subscribers:

Janet Ryder
Jonathan Morgan LLB MSc FRSA
David Melding

*Mae'r Cynulliad hwn yn annog yr Ysgrifennydd Gwladol Cymru i sicrhau bod enwebiad Cymreig am statws dinas yn cael ei gynnwys yn y rhestr sy'n cael ei chyflwyno i'w Mawrhydi y Frenhines.*

*This Assembly urges the Secretary of State for Wales to ensure that a Welsh nomination for city status is included in the list put forward to Her Majesty The Queen.*

## OPIN-2000-0107 Gwneud i ffwrdd â'r gwasanaethau rheilffordd uniongyrchol o Ogledd Cymru i Lundain/The Withdrawal of direct rail services from North Wales to London

04 Dec 2000 Raised by Alun Pugh

16 Subscribers:

Cynog Dafis
Janet Ryder
Gareth Jones
Rhodri Glyn Thomas
Kirsty Williams
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Janice Gregory
Dafydd Wigley
Tom Middlehurst
Geraint Davies
Alison Halford
Ann Jones
Lorraine Barrett
Mick Bates
Karen Sinclair
Val Feld

*Mae'n ddrwg gan y Cynulliad Cenedlaethol bod y gwasanaethau rheilffordd uniongyrchol o Ogledd Cymru i Lundain wedi'u tynnu'n ôl ac mae'n galw ar Virgin Rail i'w hail-gyflwyno.*

*The National Assembly regrets the withdrawal of direct rail services from North Wales to London and calls upon Virgin Rail for their reinstatement.*

## OPIN-2000-0106 Statws Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer Blaenafon/World Heritage Site Status for Blaenavon

01 Dec 2000 Raised by Lynne Neagle

33 Subscribers:

Richard Edwards
Gareth Jones
Helen Mary Jones
David Davies
Janet Davies
Jocelyn Davies
Rhodri Glyn Thomas
Peter Rogers
Cynog Dafis
Mick Bates
Peter Black
Brian Hancock
Kirsty Williams
David Melding
Owen John Thomas MA
Janet Ryder
Rosemary Butler
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Geraint Davies
Ron Davies
Alun Pugh
Dr Brian Gibbons FRCGP
Peter Law
Karen Sinclair
Ann Jones
John Griffiths LLB
Lorraine Barrett
Janice Gregory
Huw Lewis
Tom Middlehurst
Delyth Evans
Alison Halford
Val Feld

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn llongyfarch pobl Blaenafon ar sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i Dirlun Diwydiannol Blaenafon. Mae'r penderfyniad hwn gan UNESCO yn cydnabod cyfraniad unigryw ac arloesol gweithwyr Blaenafon a gweddill y Gymru ddiwydiannol at y Chwyldro Diwydiannol a thrwy hynny, at ddatblygiad y byd. Mae'r Cynulliad yn llongyfarch Partneriaeth Blaenafon, dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, am eu gwaith i ennill y statws. Geilw'r Cynulliad am gefnogaeth a nawdd parhaus i sicrhau bod Safle Treftadaeth y Byd, gan gynnwys Big Pit, yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol.*

*The National Assembly sends congratulations to the people of Blaenavon on securing World*

*Heritage Site Status for the Blaenavon Industrial Landscape. The decision by UNESCO is a recognition of the unique and seminal contribution made by working people in Blaenavon and throughout industrial Wales to the Industrial Revolution and therefore to world development. The Assembly congratulates the Blaenavon Partnership, led by Torfaen County Borough Council on their work to secure the status. The Assembly calls for continued support and funding to ensure the future development of the World Heritage Site, including support for Big Pit.*

## OPIN-2000-0104 Cadw Cymru'n rhydd rhag cnydau GM/ Keeping Wales free of GM crops

28 Nov 2000 Raised by Mick Bates, Peter Black, Kirsty Williams

4 Subscribers:

Janet Ryder
Rhodri Glyn Thomas
Janet Davies
Geraint Davies

*Mae'r Cynulliad hwn yn:*
*Cadarnhau ei awydd i weithredu'r polisi llymaf posibl o ran datblygu cnydau GM yn fasnachol yng Nghymru*
*Nodi'r dystiolaeth helaeth a gyflwynwyd yn y gwrandawiad swyddogol diweddar y Llundain am beryglon posibl defnyddio'r india-corn GM, Chardon LL, ac am natur annigonol y profion a gynhaliwyd ar yr hedyn hwn hyd yn hyn*
*Gwrthwynebu ychwanegu'r Chardon LL at y Rhestr Hadau Genedlaethol*
*Galw ar y Gweinidog Materion Gwledig i ymchwilio i bob ffordd bosibl i beidio â rhestru'r hedyn hwn*

*This Assembly:*
*Reaffirms its desire to operate the most restrictive policy possible on future commercial GM crop development within Wales*
*Notes the extensive evidence presented at the recent official hearing in London about the possible dangers of using the GM maize Chardon LL, and about the inadequacy of the tests so far carried out on this seed*
*Opposes the addition of Chardon LL to the National Seeds List*
*Calls on the Minister for Rural Affairs to look into all possible ways of not listing this seed*

## OPIN-2000-0102 Y Cyngor Proffesiynau Iechyd/ Health Professions Council

27 Nov 2000 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

9 Subscribers:

- Ron Davies
- Jocelyn Davies
- Peter Black
- Owen John Thomas MA
- Brian Hancock
- Dafydd Wigley
- Janet Ryder
- Rhodri Glyn Thomas
- Geraint Davies

Mae'r Cynulliad hwn yn :

- Nodi bod Llywodraeth y DU yn bwriadu rheoleiddio deuddeg o broffesiynau iechyd drwy greu corff rheoleiddio ar gyfer y DU - y Cyngor Proffesiynau Iechyd

- Nodi ymhellach nad yw'r Llywodraeth, drwy weithredu yn y ffordd hon, yn ystyried y gwahaniaethau sylweddol rhwng cymwysterau, ac arferion clinigol, y proffesiynau hyn

- Credu bod y cynigion yn anwybyddu datganoli ac yn difreinio Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon drwy beidio â chydnabod yr angen am gynrychiolaeth ar lefel genedlaethol

- Galw ar Adran Iechyd y DU i weithio'n agosach â Chymdeithas y Trinwyr a'r Meddygon Traed ac â'r gweithwyr proffesiynol eraill dan sylw, ac i gyflwyno cynigion newydd a fydd yn diogelu'r cyhoedd yn well.

This Assembly

- Notes the UK Government intends to regulate twelve health professions by the creation of a UK-wide regulatory body - The Health Professions Council

- Further notes that this approach does not take account of the considerable differences in the qualifications, and clinical practice, of these professions

- Believes that the proposals ignore devolution and disenfranchise Wales Scotland and Northern Ireland by not recognising the need for national representation

- Calls on the UK Department of Health to work more closely with the Society of Chiropodists and Podiatrists and other professionals concerned, and bring forward new proposals that will provide better protection for the public.

## OPIN-2000-0099 Mesurau i Ymorol rhag BSE/BSE Precautionary Measures

23 Nov 2000 Raised by Peter Rogers

10 Subscribers:

Cynog Dafis
Nicholas Bourne LLB LLM
Dafydd Wigley
Kirsty Williams
Glyn Davies
William Graham JP
Jonathan Morgan LLB MSc FRSA
Alun Cairns
David Melding
Mick Bates

*Yn sgil pryder eang y gallai cig eidion dros 30 mis oed o Ffrainc fod yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd, mae'r Cynulliad hwn yn galw am waharddiad ar fewnforio cig eidion o Ffrainc dros yr oedran hwn i Gymru, a hynny ar unwaith; ac yn mynnu adolygiad ar unwaith o'r mesurau a gymerir i amddiffyn defnyddwyr Cymru rhag y perygl o BSE, gan gynnwys:*

*- adolygiad trwyadl o'r deddfau labelu er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn gwybod yn union o ble y daw pob cynnyrch cig.*

*Following widespread concern that French Beef over 30 months old could be entering into the food chain, this Assembly calls for an immediate ban on the import into Wales of French Beef over this age; and demands an immediate review of precautionary measures to protect the Welsh consumer from exposure to the risk of BSE, including:*

*- a thorough review of labelling laws to ensure that consumers know the precise origins of all meat produce.*

## OPIN-2000-0098 Cydnabod y Wir Anrhydeddus Farwnes Thatcher/ Recognition of the Right Honourable The Baroness Thatcher

21 Nov 2000 Raised by Nicholas Bourne LLB LLM, Alun Cairns, Jonathan Morgan LLB MSc

FRSA, Peter Rogers

2 Subscribers:

- David Davies
- David Melding

*Deng mlynedd wedi iddi ymadael â'i swydd, mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod y cyfraniad enfawr a wnaeth y Wir Anrhydeddus Farwnes Thatcher wrth drawsffurfio ffyniant Cymru a'r Deyrnas Unedig yn ystod ei chyfnod fel Prif Weinidog ac yn ei chydnabod yn un o Brif Weinidogion mwyaf yr 20fed ganrif.*

*Ten years after departing office, this Assembly acknowledges the massive contribution that the Right Honourable The Baroness Thatcher made in the positive transformation of the fortunes of Wales and of the United Kingdom during her period as Prime Minister and recognises her as one of the greatest Prime Ministers of the 20th Century.*

## Amendments

**A01** 23 Nov 2000 Raised by John Griffiths LLB

23 Subscribers

- Janet Ryder
- Dafydd Wigley
- Janet Davies
- Rhodri Glyn Thomas
- Helen Mary Jones
- Huw Lewis
- Geraint Davies
- Janice Gregory
- Dr Brian Gibbons FRCGP
- Gwenda Thomas
- Christine Chapman
- Val Feld
- Alison Halford
- Alun Pugh
- Richard Edwards
- Christine Gwyther
- Delyth Evans
- Rosemary Butler
- Owen John Thomas MA

Tom Middlehurst
Peter Law
Peter Black
Mick Bates

*Dileu popeth a rhoi'r canlynol yn ei le:*

*"Ddeng mlynedd ar ôl iddi gael ei diswyddo'n ddiseremoni gan ei phlaid ei hun, mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod y cyfraniad enfawr a wnaeth y Farwnes Thatcher i ddifrodi cymunedau ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig yn ystod ei chyfnod fel Prif Weinidog, gan ddwysáu anghyfartaledd ac annhegwch yn enbyd; ac yn ei chydnabod fel un o Brif Weinidogion mwyaf trychinebus a chynhennus yr ugeinfed ganrif"*

*Delete all and replace with:*

*"Ten years after her unceremonious removal from office by her own party, this Assembly acknowledges the massive contribution that The Baroness Thatcher made to the decimation of communities across Wales and the United Kingdom during her period as Prime Minister, grossly exacerbating inequality and injustice, and recognises her as one of the most disastrous and divisive Prime Ministers of the twentieth century".*

## OPIN-2000-0097 Pryderon ynghylch Amcan 1/ Objective 1 concerns

20 Nov 2000 Raised by Alun Cairns

4 Subscribers:

Brian Hancock
Nicholas Bourne LLB LLM
Dafydd Wigley
Rhodri Glyn Thomas

*Mae'r Cynulliad hwn yn cadarnhau barn y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog Datblygu Economaidd y bu gofid cytûn ynghylch y modd y deliwyd ag Amcan 1 hyd yma a geilw am esboniad llawn o'r rhesymau am yr anawsterau.*

*This Assembly endorses the view of the Deputy First Minister and Economic Development Minister that there has been 'united anxiety over the handling of Objective 1' to date and calls for a complete explanation of the reasons for the difficulties.*

## OPIN-2000-0095 Cydnabod yr hyn y mae John Charles wedi'i

## gyflawni/ Recognition of the achievements of John Charles

15 Nov 2000 Raised by Peter Black

12 Subscribers:

- Dafydd Wigley
- Nicholas Bourne LLB LLM
- Tom Middlehurst
- Glyn Davies
- Christine Chapman
- Alison Halford
- Gareth Jones
- Gwenda Thomas
- Richard Edwards
- Cynog Dafis
- Geraint Davies
- Kirsty Williams

*Cred y Cynulliad Cenedlaethol y dylid cydnabod llwyddiannau'r cyn bêl-droediwr rhyngwladol o Gymru, John Charles, â'r anrhydedd priodol.*

*The National Assembly believes that the achievements of former Welsh International footballer John Charles should be recognised by an appropriate honour.*

## OPIN-2000-0094 Y Mudiad Heddwch yng Nghymru/The Peace Movement in Wales

14 Nov 2000 Raised by John Griffiths LLB, Christine Humphreys, Owen John Thomas MA

15 Subscribers:

- Janet Ryder
- Janice Gregory
- Gareth Jones
- Christine Chapman
- Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
- Cynog Dafis
- Val Feld
- Dafydd Wigley
- Tom Middlehurst

Richard Edwards
Christine Gwyther
Helen Mary Jones
Ron Davies
Rosemary Butler
Mick Bates

*Mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniad pwysig y mudiad heddwch yng Nghymru at heddwch bydeang, gan gynnwys cyfraniad menywod Cymru yng Nghomin Greenham.*

*This Assembly recognises and values the important contribution of the peace movement in Wales to world peace, including that made by Welsh women at Greenham Common.*

## OPIN-2000-0093 Sgrinio Cyffredinol Clyw Plant Newydd-anedig/ Universal Neo-natal Hearing Screening

10 Nov 2000 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther, Karen Sinclair, Kirsty Williams

38 Subscribers:

Helen Mary Jones
David Davies
Glyn Davies
Peter Rogers
Rod Richards
Janice Gregory
Peter Law
Rosemary Butler
Dafydd Wigley
Elin Jones
Pauline Jarman
Jocelyn Davies
Geraint Davies
Janet Davies
Brian Hancock
Phil Williams
Huw Lewis
Ann Jones
David Melding
Owen John Thomas MA
Delyth Evans

- Christine Chapman
- Tom Middlehurst
- Christine Gwyther
- Ron Davies
- Val Feld
- John Griffiths LLB
- Alison Halford
- Alun Pugh
- Richard Edwards
- Gareth Jones
- Gwenda Thomas
- Cynog Dafis
- Janet Ryder
- Peter Black
- Rhodri Glyn Thomas
- Lorraine Barrett
- Mick Bates

*Mae'r Cynulliad hwn yn annog y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, i sefydlu Grwp Tasg ar y cyd i ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno'n fuan sgrinio cyffredinol clyw plant newydd-anedig yng Nghymru.*

*This Assembly urges the Health and Social Services Committee, together with the Education and Life-long Learning Committee, to set up a joint Task Group to explore the early introduction of universal neonatal hearing screening in Wales.*

## OPIN-2000-0091 Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru/ National Botanic Garden of Wales

08 Nov 2000 Raised by Christine Chapman

17 Subscribers:

- Janet Ryder
- Janice Gregory
- Christine Gwyther
- Dafydd Wigley
- Val Feld
- Gareth Jones
- Tom Middlehurst
- Helen Mary Jones
- Cynog Dafis

- Owen John Thomas MA
- Rhodri Glyn Thomas
- Gwenda Thomas
- Alison Halford
- Richard Edwards
- John Griffiths LLB
- Nicholas Bourne LLB LLM
- Kirsty Williams

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn llongyfarch y staff a phawb a fu'n gysylltiedig â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru sydd wedi gweld dros 184,000 o ymwelwyr yn ystod ei chwe mis cyntaf, gan lwyddo i ddenu mwy o ymwelwyr mewn chwe mis na'r nifer a ddisgwylid i ymweld yn ystod y flwyddyn gron, ac felly ei gwneud yn atyniad ymwelwyr bywiog gan hyrwyddo delwedd gadarnhaol Cymru.*

*This National Assembly congratulates the staff and all those involved with the National Botanic Garden of Wales which has seen over 184,000 visitors in its first six months of operation, thereby surpassing its annual visitor estimate in only six months, and making it a vibrant tourist attraction and thereby furthering the positive image of Wales.*

## OPIN-2000-0087 Mesur Defnyddwyr newydd/ A new Consumer Bill

30 Oct 2000 Raised by Mick Bates, Ron Davies, Brian Hancock, David Melding

14 Subscribers:

- Dafydd Wigley
- Christine Gwyther
- Peter Law
- Christine Chapman
- Gareth Jones
- Cynog Dafis
- Peter Black
- Val Feld
- John Griffiths LLB
- Janet Ryder
- Rhodri Glyn Thomas
- Karen Sinclair
- Owen John Thomas MA
- Kirsty Williams

*Mae'r Cynulliad hwn yn cefnogi'r alwad gan Gyngor Defnyddwyr Cymru, Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cymorth, a'r Sefydliad Safonau Masnach am gynnwys Mesur Defnyddwyr newydd yn Araith nesaf y Frenhines. Dylai Fesur o'r fath gynnwys mesurau i:*
*- ganiatáu i asiantaethau diogelu defnyddwyr lleol gamu i'r bwlch yn gyflym i atal masnachwyr twyllodrus*
*- diogelu defnyddwyr bregus a dibrofiad*
*- atal mantesio ar bobl sy'n gweithio gartref*
*- rhwystro arferion gormesol ac anheg gan gasglwyr dyledion*

*This Assembly supports the call by the Welsh Consumer Council, the National Association of Citizens' Advice Bureaux, and the Trading Standards Institute for a new Consumer Bill to be included in the next Queen's Speech. Such a Bill should include measures to:*
*- allow local consumer protection agencies to step in quickly to stop unscrupulous traders*
*- protect vulnerable and inexperienced consumers*
*- prevent the exploitation of home workers*
*- restrict oppressive and unfair practices by debt collectors*